

Cofion a Chyfarchion

- Parhawn i gofio am y teuluoedd yn ein plith sy'n galaru am anwyliaid. Gweddiwn y byddant yn profi Duw yn agos a'u bod yn adnabod heddwch a thangnefedd cwmni'r Arglwydd Iesu.
- Yn yr un modd, cofiwn am y rhai hynny sydd heb fod cystal eu hiechyd y dyddiau hyn. Cyflwynwn hwy oll i ofal yr Arglwydd gan ofyn iddo gysgodi drostynt.
- Llongyfarchiadau i Alan a Nerys Morgan (Llansannan) ar enedigaeth mab, brawd bach i Anest Wyn. Dymunwn fendith Duw ar y teulu bach.

I ddo

- **PARTI NADOLIG YSGOL SUL/ CYMDEITHAS CEFN MEIRIADOG**, nos Lun, Rhagfyr 22ain am 6.30.
- **PLYGAIN** noswyl y Nadolig (Rhagfyr 24ain) dan arweiniad Aneurin yng Nghapel Llanefydd am 7.00.
- **GWASANAETH PLYGAIN** yng Nghapel Bethania, Llansannan am 7.00 ar fore'r Nadolig.
- **OEDFA BORE NADOLIG I'R FRO** yng Nghapel Cefn Meiriadog am 9.30.
- **OEDFA I'R FRO** bore Sul, Rhagfyr 28ain am 11.00 yng Nghapel Saron gydag Eryl Davies yn arwain ac Aneurin yn pregethu. Wedi'r oedfa, bydd cyfle i bwy bynnag sy'n dymuno gael picnic yn y Ffestri cyn mynd ar daith gerdded yn yr ardal. Mwy o fanylion i ddilyn.
- **SWPER NADOLIG Y GRWPIAU ADNABOD / OEDFA'R FRO** yn Ffestri Llansannan, nos Lun, Rhagfyr 29ain am 7.30. Cysylltwch â Mair **erbyn dydd Llun, Rhagfyr 22ain** i roi eich enwau ac i drefnu'r bwyd, os gwelwch yn dda.

Dalier Sylw

Dylid danfon unrhyw gyhoeddiadau am yr wythnos i:

Mair – ✉ mair@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870632 📞 07900 627536,
Rhodri – ✉ rhodri@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870522 📞 07814 660291 neu i
Aneurin – ✉ aneurin@eglwysibroaled.com ☎ 01745 870618 📞 07775 701102
erbyn 9.00 nos Fercher fan bellaf.

Eglwysi Bro Aled

Ein nod yw tystio i efengyl Duw, yn effeithiol ac yn gyfoes, drwy gyfeirio'n holl adnoddau i ddyrchafu Iesu, a chyrraedd ein cymunedau.

Llais Bro Aled

Dydd Sul, 14^{eg} Rhagfyr 2014

Darlleniad y Dydd

Luc 1:67-80

(BCND tud.62 / BCN: tud.57)

www.eglwysibroaled.com / www.thaglendorcas.com / www.llanw.org / www.dawncymru.org

Bore da! Mae'r rhod bron a throi unwaith eto ac fe fydd y dydd yn 'mestyn. Mae'n braf meddwl am hynny a meddwl mor fawr yw'r byd a'r bydysawd yr ydym ynddo! Dyma ni, ar lwmp o graig boeth yn carlamu o gwmpas yr haul ar wib dychrynlyd a miliynau o fydoedd eraill o'n cwmpas y tu hwnt i bob dychymyg!

Un seren, ac un byd oedd yn bwysig y noson honno pan anwyd Iesu. Ein byd syrthiedig ni a Duw yn dod i'w fyd mewn ffordd ryfeddol ac annisgwyl. Y seren dan orchymyn i arwain y doethion a'r angylion dan orchymyn i gyhoeddi'r newydd da i'r bugeiliaid am eni Ceidwad i'r byd, a Mair a Joseff mewn ufudd-dod yn gwarchod y newydd-anedig. Dyma ddirgelwch mawr ein cred – Duw yn ymddangos mewn cnawd ac Arglwydd y bydoedd oll yn dod yn blentyn bychan, di-nam. Addolwn Ef gyda'n gilydd heddiw, gyda holl lu'r nef, canwn “Gogoniant i Dduw yn y goruchaf!” Cofiwch ddod i'r gwasanaeth heno!

Beth ydi'ch hoff adeg chi dros gyfnod y Nadolig tybed? Prysurdeb y siopa, y wefr o gael bargaen ar-lein efallai, neu eistedd wrth y bwrdd cinio a chael platiad o'ch hoff gig – a'r trimings i gyd hefo'i gilydd! I'r plant, codi bore 'Dolig mae'n siŵr sy'n cyffroi, a'r disgwyl ar ben! I eraill, cael seibiant bychan, pwrpasol, i gofio am anwyliaid ac i ddiolch am a fu.

Fydda i'n meddwl weithiau tybed a oedd Mair a Joseff yn edrych yn ôl hefo'i gilydd ar y cyfnod yna yn eu bywydau – y daith hefo'i gilydd o Nasareth (a beth a ddaeth tybed o'r hen ebol asyn ffyddlon?), Joseff yn gwneud y beudy'n ddigon diddos a chlyd i Mair gore medre fo, y geni rhyfeddol ac yna'r holl ymwelwyr dieithr! Does dim sôn yn y Beibl am yr hyn a gadwodd Joseff yn ei galon, ond mae yna gyfeiriad at Mair yn Luc 2, adnod 19 fel hyn: “... ond yr oedd Mair yn cadw'r holl bethau hyn yn ddiogel yn ei chalon ac yn myfyrio arnynt.” Gallwn yn rhwydd ddychmygu felly i ryfeddodau'r geni aros yn fyw iawn yng nghalon a meddwl Mair trwy gydol ei hoes. Mor fawr yw calon mam i gofio cario, geni, a magu ei phlentyn.

Mae calon pob Cristion i fod yn debyg i galon Mair yn hyn o beth. Trysorwn ein Harglwydd Iesu yn ein calon, llawenhau wrth edrych yn ôl ar waith ei Ysbryd ynom a diolch fwyfwy am ei bresenoldeb hyfryd gyda ni rwan. Ac fel plant yn aros i'r dydd mawr wawrio, llawenhawn am yr hyn sydd o'n blaenau yn y nef a baratowyd i ni gan yr Un a ddaeth i'n gwaredu, Iesu ei hun!

Darlleniad Wythnos Nesaf

Ioan 1: 1-14 (BCND tud.99 / BCN: tud.91)

Aneurin

Cyhoeddiadau

Y Fro

Gwasanaeth Carolau a Phlygain Eglwysi Bro Aled



Nos Sul Rhagfyr 14eg
6 o'r gloch
Capel Coffa Henry Rees,
Llansannan

Paned a mins peis i ddilyn
Croeso cynnes i bawb!

"yr wyf yn cyhoeddi i chwi y newydd da o lawenydd mawr a ddaw i'r holl bobl"

- Mawrth • **Cyfarfod Gweddi'r Fro** yn Groes am 7.30.
- Iau • **Cyfarfod Plant Llanefydd** am 3.15.
- Gwener • **Swper Nadolig C.I.C.** yn Llansannan am 7.30. Enwau i Rhodri, os gwelwch yn dda.
- Sul nesaf • Ni fydd **Oedfa i'r Fro** ar Ragfyr 21ain. Cynhelir yr Oedfa i'r Fro nesaf ar fore Nadolig yng Nghapel Cefn Meiriadog **am 9.30**, ac yna yng Nghapel Saron, bore Sul, Rhagfyr 28ain am **11.00**.

Llansannan

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa Sul y Beibl am 10.00 a bydd Ysgol Sul y plant yn cydreddeg. Cynhelir Ysgol Sul yr oedolion am 11.10.
- Llun "Awn i Fethlem" – Gwasanaeth Carolau y Gymdeithas yn Eglwys Sant Sannan am 7.30.
- Iau Cinio Nadolig Jangl am 12.00.
Ymarfer i'r plant ar gyfer y Gwasanaeth Nadolig yn y Ffestri am 3.15.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig Ysgol Sul yr oedolion am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig y plant yn y capel am 2.00 gydag Aneurin yn rhoi anerchiad, a bydd y Parti Nadolig yn dilyn yn y Ffestri.

Cyhoeddiadau

Tanyfron a Nantglyn

- Sul yma Bydd Rhodri yn arwain oedfa i'r daith yn Nantglyn am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Gwasanaeth Nadolig i'r daith yn Nhanyfron am 2.00 a bydd paned a mins pei i ddilyn.

Llanfair a Chefn Meiriadog

- Sul yma Bydd Ysgol Sul Cefn Meiriadog yn mynd i Gartref Yr Hen Ddeondy am 10.30 i gynnal gwasanaeth carolau, croeso cynnes i bawb. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanfair am 11.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno i'r daith am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Meiriadog am 10.30 a bydd paned a mins pei i ddilyn. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig i'r teulu yn Llanfair am 11.00 a bydd Parti Nadolig i bawb yn y Neuadd Goffa i ddilyn.

Saron a Pheniel

- Sul yma Bydd y Parch. John Robinson yn arwain oedfa yn Saron am 10.00 ac ym Mheniel am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00 ac yn Saron am 2.00.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn Saron am 11.00. Bydd y Parti Nadolig ar ôl y gwasanaeth a disgwylir y bydd Siôn Corn yn ymweld. Bydd Ysgol Sul ym Mheniel am 10.00. Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yno yn y prynhawn a bydd te wedi ei baratoi i ddilyn y gwasanaeth.

Henllan a Groes

- Sul yma Bydd y Parch. Goronwy Prys Owen yn arwain oedfa yn Henllan am 10.00 ac yn Groes am 2.00. Cynhelir Ysgol Sul yn Groes am 10.00 ac yn Henllan am 2.00.
- Sul nesaf Bydd Ysgol Sul yn Henllan am 10.00 a chynhelir Gwasanaeth Nadolig yno am 2.00. Bydd Gwasanaeth Nadolig yn Groes am 10.30, a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Ffestri.

Llanefydd a Chefn Berain

- Sul yma Bydd Aneurin yn arwain oedfa yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd yr Ysgol Sul am 10.45. Cynhelir Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.00 a bydd Aneurin yn arwain oedfa yno am 10.45.
- Sul nesaf Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yr Ysgol Sul yn Llanefydd am 10.30 a bydd Parti Nadolig i ddilyn yn y Neuadd. Yna, bydd Gwasanaeth Carolau Undebol Llanefydd yn yr Eglwys am 6.30. Yn yr un modd, cynhelir Gwasanaeth Nadolig yng Nghefn Berain am 10.00 a bydd Parti Nadolig i ddilyn.